





## CBAC yn cyhoeddi manylebau terfynol ar gyfer yr ail don o gymwysterau newydd

Mae manylebau cymeradwy ar gyfer 10 cymhwyster TGAU ac un cymhwyster Lefel 2 bellach ar gael ar wefan CBAC, flwyddyn cyn iddyn nhw gael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2026.

Yn dilyn cymeradwyaeth ein tîm rheoleiddio, mae CBAC, sef y corff dyfarnu ar gyfer TGAU, wedi cyhoeddi manylebau pwnc terfynol, sy'n galluogi addysgwyr ledled Cymru i barhau i baratoi ar gyfer addysgu'r cymwysterau am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf.

Dyma'r ail o dair ton o weithredu'r **Cymwysterau Cenedlaethol**.

Mae'r cymwysterau yn y don hon yn cynnwys TGAU newydd sbon mewn dawns, yn ogystal â hanes, astudiaethau

## WJEC publishes final specifications for second wave of qualifications

Approved specifications for 10 GCSEs and one Level 2 qualification are now available via WJEC's website, one year ahead of first teaching in September 2026.

Following approval from our regulatory team, the awarding body for GCSEs, WJEC, has published final subject specifications, enabling educators across Wales to continue their preparation for first teaching next year. This is the second of three waves of implementation of the **National Qualifications**.

Qualifications in this wave include a brand new GCSE in dance, as well as history, social studies and the new single and double award science GCSEs.

**Find out more**.

cymdeithasol a'r TGAU gwyddoniaeth gradd unigol a dwyradd newydd.
**Manylion pellach**.




## Ymgynghoriad pellach wedi ei gynllunio ar TGAU gwyddoniaeth

Bydd ymgynghoriad pellach ar TGAU gwyddoniaeth yn cael ei gynnal yn 2028, gyda chymwysterau TGAU presennol mewn bioleg, cemeg a ffiseg yn parhau i fod ar gael, tra bod cymwysterau TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) a TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Gradd Unigol) newydd yn cael eu hymgorffori mewn ysgolion.

Ers cyhoeddi **ein penderfyniad i symleiddio'r cynnig TGAU gwyddoniaeth**, rydym wedi parhau i wrando ar ysgolion a cholegau, yn ogystal â sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb ac wedi ymgysylltu â nhw ynglŷn â chynnwys a gofynion y cymwysterau newydd - yn ogystal â dileu cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân (TGAU mewn bioleg, cemeg a ffiseg). Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym wedi penderfynu mai'r ffordd orau o weithredu ar hyn o bryd yw cynnal ymgynghoriad ychwanegol ar yr ystod o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth ddylai fod ar gael yng Nghymru yn y dyfodol. **Rhagor o wybodaeth**.

## Further consultation planned on GCSE science

A further consultation on GCSE science will take place in 2028, with current GCSEs in biology, chemistry and physics continuing to be available while new GCSE The Sciences (Double Award) and GCSE Integrated Science (Single Award) qualifications are embedded in schools.

Since announcing **our decision to streamline the GCSE science offer**, we have continued to listen to and engage schools, colleges, and interested organisations and individuals about content and requirements of the new qualifications - as well as the removal of separate science qualifications (GCSEs in biology, chemistry and physics).

After careful consideration, we have decided that the best course of action at this stage is to carry out an additional consultation on the future range of science

GCSEs that should be made available in Wales.

[Find out more](#).




## Diolch am gymryd rhan yn ein hymgynghoriad cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi ymgynghori ar ofynion dylunio ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg a Cymraeg Craidd. Rydym yn ddiolchgar am yr ymateb a gawsom gan y sector addysg ac am y lefelau uchel o ddiddordeb yn y diwygiadau pwysig hyn.

Roedd yr ymgynghoriad ei hun yn ganlyniad o raglen ymgysylltu helaeth ac roedd y wybodaeth a rannwyd yn hanfodol wrth ein helpu i lunio ein cynigion.

Ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi canfyddiadau'r ymgynghoriad, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen a fydd yn egluro'r rhain a'n penderfyniadau ym mis Tachwedd.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda CBAC a phartneriaid allweddol eraill wrth symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses, gyda'r nod o gymeradwyo'r cymwysterau newydd i fod yn barod i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2027.

Byddwn ni hefyd yn rhannu mwy o wybodaeth dros y misoedd nesaf ynghylch

## Thank you for taking part in our Cymraeg AS and A levels consultation

Over recent months we have consulted on design requirements for new AS and A levels in Cymraeg and Core Cymraeg. We are grateful for the response we have had from the education sector and for the high levels of interest in these important reforms.

The consultation itself was the outcome of an extensive programme of engagement and the expertise shared was vital in helping us arrive at our proposals.

We are currently analysing the consultation findings, and we intend to publish a document explaining these and our decisions in November.

In the meantime, we continue to work closely with WJEC and other key partners as we move to the next stage in the process, with the aim of approving the new

sut y gall rhanddeiliaid barhau i leisio eu barn yn ystod y cam datblygu cymwysterau.

qualifications to be ready for first teaching in September 2027.

We will also share more information over the forthcoming months about how stakeholders can continue to have their say during the qualification development stage.




## Help i baratoi ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd

Bydd arholiadau'n digwydd fis nesaf ar gyfer unedau mewn TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg – Rhifedd, TGAU Mathemateg a TGAU Cymraeg Iaith. Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan i'ch helpu chi a'ch staff i baratoi ar gyfer y gyfres arholiadau, gan gynnwys:

- **Arholiadau 360** - sy'n esbonio sut mae papurau arholiad yn cael eu gosod, eu marcio a'u graddio
- **Canllawiau ar gynlluniau wrth gefn** - i'ch cynorthwyo chi a'ch canolfan wrth i chi baratoi cynlluniau i sicrhau bod cyfres arholiadau'n rhedeg yn esmwyth, hyd yn oed yn wyneb problemau neu heriau posibl

## Help to prepare for the November exams series

Exams will take place next month for units in GCSE English Language, GCSE Mathematics – Numeracy, GCSE Mathematics and GCSE Welsh Language. We have information on our website to help you and your staff prepare for the exam series, including:

- **Exams 360** - which explains how exam papers are set, marked and graded
- **Contingency guidance** - to assist you and your centre as you prepare plans to ensure exam series run smoothly, even in the face of potential issues or challenges

**Plus...**

**Hefyd...**
Mae'r hwb cynnwys **Lefel Nesa** ar gael i gefnogi'ch dysgwyr gydag adnoddau fel hen bapurau, canllawiau adolygu a chymorth ymarferol.

The **Power Up** content hub is available to support your learners with resources such as past papers, revision guides and practical support.




## Dyddiad ar gyfer ein Fforwm i Gyrff Dyfarnu

Bydd ein Fforwm blynyddol i Gyrff Dyfarnu yn cael ei gynnal ar 11 Rhagfyr. Mae'r digwyddiad yn un hybrid, ar-lein neu yn ein swyddfeydd yng Nghasnewydd. Bydd mwy o fanylion yn y cylchlythyr nesaf.

## Date for our Awarding Bodies Forum

Our annual Awarding Bodies Forum will be held on 11 December. The event is hybrid, online or at our Newport offices. More details in the next newsletter.




## Storio ffeiliau'n ddiogel ar gyfer canolfannau

Rydym wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru ar ei hadnodd newydd sy'n cefnogi

## Secure file storage for centres

We have collaborated with Welsh Government on its new tool supporting

ysgolion a cholegau i storio ffeiliau digidol yn ddiogel.

Mae'n cynnig system rheoli dogfennau yn ddiogel yn y cwmwl, drwy wefan Hwb, a bydd yn galluogi canolfannau i weinyddu a storio ffeiliau sy'n gysylltiedig ag asesiadau di-arholiad yn well.

Gallwch chi ddarllen mwy am yr adnodd **yma**.

schools and colleges to store digital files securely.

The cloud-based document management solution, accessed via Hwb, will enable centres to better administer and store files related to non-examination assessments.

You can find out more about the tool **here**.



## Swyddi a chyfleoedd

Rheolwr Cynnwys a Chyhoeddi

## Jobs and opportunities

Content and Publishing Manager



## Cyhoeddiadau diweddar

Cyfrifon Blynyddol 2024/25

Strategaeth y Gymraeg

Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill Chwarterol: Chwarter 2 (Ebrill i Fehefin) 2025 ar gyfer Cymru

Amrywiad yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch: Haf 2025

## Recent publications

Annual accounts 2024/25

Cymraeg Strategy

Vocational and Other Qualifications Quarterly: Quarter 2 (April to June) 2025 for Wales

Variation in GCSE, AS and A level results: Summer 2025

## Gohebiaeth ddiweddaraf

## Latest correspondence

Take a look at all our recent letters to recognised awarding body Responsible

Edrychwch ar ein holl lythyrau diweddar at Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig, Penaethiaid Canolfannau, a rhanddeiliaid eraill ar ein tudalen we bwrpasol.

Officers, Heads of Centres, and other stakeholders on our dedicated webpage.

Ar gyfer Penaethiaid, Swyddogion Arholiadau a Swyddogion Cyfrifol: Rydych yn derbyn y cyhoeddiad hwn fel y prif gyswllt mewn sefydliad rhanddeiliaid. Sylwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan sail gyfreithiol prosesu er budd y cyhoedd ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau 2015. Am fwy o fanylion cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatwydd.

For Heads, Exam Officers and Responsible Officers: You are receiving this mailing as a primary contact at a stakeholder organisation. Please note that we retain your contact details on our systems under the legal basis of processing in the public interest and in accordance with our statutory functions under section 46 of the Qualifications Act 2015. For further details please refer to our privacy notice.

© 2022 Microsoft Dynamics. All rights reserved.
Q2 Building, Pencarn Lane, Imperial Park, Coedkernew, Newport NP10 8AR